# Rhaglen Gyflawn

| | |
|---|---|
| Cyfarfod | **PWYLLGOR ARDAL DWYFOR** |
| Dyddiad ac Amser | **5.15 y.h. Dydd Llun, 1af Mehefin, 2015** |
| Lleoliad | **Frondeg, Pwllheli, LL53 5RE** |
| Pwynt Cyswllt | **Bethan Adams 01286 679020<br>BethanAdams@gwynedd.gov.uk** |

**Rhaglen**

| | | |
|---|---|---|
| **1.** | **Ethol Cadeirydd** | |
| **2.** | **Ethol Is-gadeirydd** | |
| **3.** | **Ymddiheuriadau** | |
| **4.** | **Dyfodol y Gwasanaeth Llyfrgell yng Ngwynedd**<br><br>(adroddiad ynghlwm) | 1 - 2 |
| **5.** | **Sefydlu materion ar gyfer y Rhaglen Waith**<br><br>(copi ynghlwm) | 3 |
| **6.** | **Dyddiadau Cyfarfodydd 2015-16**<br><br>I nodi dyddiadau cyfarfodydd ar gyfer y flwyddyn i ddod.<br><br>• dydd Llun, 21 Medi 2015<br>• dydd Llun, 14 Rhagfyr 2015<br>• dydd Llun, 7 Mawrth 2016 | |

*Dymunir atgoffa aelodau o'u cyfrifoldeb i wneud penderfyniad eu hunain ynglŷn â'r angen i ddatgan buddiant ac i adael y cyfarfod.*

Dosbarthwyd: 27/5/15

**AELODAU**

**Y CYNGHORWYR**

Stephen W. Churchman
Anwen J. Davies
Aled Ll. Evans
Gweno Glyn
Simon Glyn
E. Selwyn Griffiths
Alwyn Gruffydd
John Brynmor Hughes
Jason Humphreys
Llywarch Bowen Jones
Michael Sol Owen
Peter Read
W. Gareth Roberts
Angela Russell
Eirwyn Williams
Gruffydd Williams
Owain Williams
R. H. Wyn Williams
Robert J. Wright

CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad Pwyllgor Ardal Dwyfor

**Maes** : **Gwasanaeth Llyfrgell**

**Aelod Cabinet : Cynghorydd Ioan Thomas**

**Swyddog Cyswllt** : **Hywel James, Prif Lyfrgellydd.**

**Rhif Cyswllt** :**01286 679 463**

**Adran** : **Economi a Chymuned**

---

**Teitl yr Eitem** : Dyfodol y Gwasanaeth Llyfrgell yng Ngwynedd.

---

**Pwrpas Cyflwyno'r Eitem :**

1. Adrodd ar Adolygiad y Gwasanaeth Llyfrgell i aelodau'r Fforwm.
2. Codi Ymwybyddiaeth aelodau'r Fforwm o'r Ymgynghoriad Cyhoeddus ar Ddyfodol y Gwasanaeth Llyfrgell.

---

### 1. Adolygiad y Gwasanaeth Llyfrgell (2013)

1.1 Mae'r Adran Economi a Chymuned, o dan arweiniad Panel Ymgynghorol o aelodau etholedig, wedi ymgymryd ag adolygiad o'r Gwasanaeth Llyfrgell yng Ngwynedd. Cwblhawyd yr Adolygiad yn ystod 2012-13.

1.2 Prif ganfyddiadau'r adolygiad oedd:-

- Bod tueddiadau defnydd o'r gwasanaeth ar gynnydd gyda thueddiad lleihad defnydd yn ambell lyfrgell yn unig;
- Bod perfformiad Gwynedd yn erbyn 'Safonau Llyfrgelloedd Cenedlaethol' yn uwch na'r cyfartaledd;
- Bod lefel boddhad defnyddwyr gyda'r gwasanaeth yn uchel;
- Bod y Gwasanaeth Llyfrgell yn bwysig i drigolion ond fod ymweliadau yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol;
- Bod ymwybyddiaeth o'r gwasanaeth craidd yn uchel ond fod angen mwy o hyrwyddo gan dynnu sylw at y cynnig 'digidol' sydd ar gael;
- Bod angen cyfeiriad strategol newydd i'r Gwasanaeth gan ganolbwyntio ar bedwar maes gwasanaeth allweddol sef Digidol, Iechyd a Lles, Darllen a Gwybodaeth;
- Bod y dull darparu presennol yn anghynaladwy i'r dyfodol.

1.3 Ar gwblhau'r Adolygiad penderfynodd y Panel y dylai'r Gwasanaeth Llyfrgell





CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

- Mabwysiadu cyfeiriad strategol newydd
- Cytuno i'r egwyddor o newid i fodel darpariaeth sy'n gyfuniad o Brif Llyfrgelloedd a Mynediad Cymunedol i'r Gwasanaeth.
- Cwblhau Astudiaeth Opsiynau ar gyfer adnabod Modelau Darparu newydd.

1.4 Mae'r Gwasanaeth Llyfrgell bellach wedi drafftio strategaeth ar gyfer y dyfodol a cwblhau astudiaeth opsiynau ar gyfer adnabod modelau darparu newydd i wireddu'r strategaeth honno.

1.5 Mae'r Gwasanaeth wedi cychwyn ar broses o ymgynghori cyhoeddus ar y Cyfeiriad Strategol a'r Model Darparu newydd drwy "Ymgynghoriad Gwasanaeth Llyfrgell Gwynedd - Mwy na Llyfrau".

## 2. Ymgynghoriad Gwasanaeth Llyfrgell Gwynedd - Mwy na Llyfrau 2015.

2.1 Mae'r Cyngor yn wynebu cyfnod heriol yn ariannol, ac yn ceisio canfod ffyrdd gwahanol o ddarparu gwasanaethau i drigolion y sir. Er fod y Gwasanaeth Llyfrgell yn wasanaeth statudol mae dal disgwyl i'r gwasanaeth ddarparu oddi fewn i'r gyllideb sydd ar gael.

2.2 Bydd disgwyl i'r Gwasanaeth Llyfrgell ddarparu gwasanaeth gyda gostyngiad o oleiaf 25% yn ei chyllideb erbyn 2017-18; ynghyd ac ysgwyddo gostyngiad ariannol pellach yn sgil penderfyniad ynghylch toriadau yn yr un cyfnod.

2.3 Yn y cyd-destun heriol hwn mae'r Gwasanaeth Llyfrgell yn ceisio barn trigolion, defnyddwyr, cymunedau a phartneriaid ar ddyfodol y gwasanaeth.

2.4 Mae'r gwasanaeth wedi cwblhau asesiad effaith cydraddoldeb cychwynnol ar yr hyn a gynigir yn "mwy na Llyfrau". Yn sgil hynny rydym wedi cynnal sesiynau ymgynghori gyda grwpiau penodol o'r gymdeithas sy'n adlewyrchu'r grwpiau sy'n debygol o gael eu heffeithio.

2.5 Rydym hefyd yn cynnal Sesiynau Galw Heibio ym mhob un o'r llyfrgelloedd presennol i gasglu barn cymunedau gwahanol; ynghyd ag holiadur ar-lein a/neu holiadur papur.

2.6 Bydd yr ymgynghoriad cyhoeddus yn dod i ben ar Orffennaf 17eg.

2.7 Gellir cael mynediad i holl ddogfennau'r ymgynghoriad drwy wefan y Cyngor (https://www.gwynedd.gov.uk/cy/Cyngor/Dweud-eich-dweud/Ymgynghoriad-ar-y-Gwasanaeth-Llyfrgell.aspx ), neu yn unrhyw un o'r Llyfrgelloedd (adeiladu a teithiol).

## 3. Camau Nesaf

Caiff canfyddiadau'r ymgynghoriad cyhoeddus ei ddefnyddio er mwyn cwblhau yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb; ac er mwyn llunio argymhellion i'w cyflwyno i'r Cabinet am benderfyniad ar y cyfeiriad strategol a'r dull darparu i'r dyfodol. Rhagwelir cyflwyno adroddiad i'r Cabinet erbyn diwedd 2015.

**RHAGLEN WAITH DWYFOR 2015-16 *DWYFOR WORK PROGRAMME***

| | | |
|---|---|---|
| | 1 Mehefin, 2015 | 1 June, 2015 |
| | **Dyfodol y Gwasanaeth Llyfrgell yng Ngwynedd** | **The Future of Gwynedd Library Service** |

| | | |
|---|---|---|
| | 21 Medi, 2015 | 21 September, 2015 |
| | **Rhaglen Waith Swyddog Adfywio Ardal Dwyfor**<br>Cyflwyno'r rhaglen waith. | **Dwyfor Area Regeneration Officer's Work Programme**<br>To submit the Work Programme. |
| | | |

| | | |
|---|---|---|
| | 14 Rhagfyr, 2015 | 14 December, 2015 |
| | | |
| | | |

| | | |
|---|---|---|
| | 7 Mawrth, 2016 | 7 March, 2016 |
| | | |
| | | |

| | | |
|---|---|---|
| | Heb eu hamserlennu eto | Not timetabled yet |
| | **Siarter Iaith**<br>Derbyn cyflwyniad parthed yr uchod. | **Language Charter**<br>To receive a presentation on the above. |
| | **Cynllun Cyflogaeth Llŷn ac Eifionydd**<br>I ystyried y rhaglen waith. | **Llŷn and Eifionydd Employment Plan**<br>To consider the Work Programme. |
| | **Cyflwyniad Diogelu Plant**<br>Derbyn cyflwyniad parthed yr uchod. | **Child Protection Presentation**<br>To receive a presentation on the above. |